

Arolygiad â Phwyslais Penodol o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Uned Seiciatrig Heddfan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 7–9 Gorffennaf

2020

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd â phwyslais penodol yn Uned Seiciatrig Heddfan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar noson 7 Gorffennaf ac yn ystod y diwrnodau canlynol, sef 8 a 9 Gorffennaf 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Gwanwyn – Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn
- Hydref – Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Diben yr arolygiad oedd cael sicrwydd ynghylch p'un a yw'r bwrdd iechyd yn rhoi digon o sylw i'r gwaith o fynd i'r afael â materion a godwyd drwy bryderon y rhoddwyd gwybod amdanynt i AGIC.

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio yn benodol ar y meysydd canlynol:

- Gofal cleifion
- Llywodraethu ac arweinyddiaeth
- Diogelu
- Staffio
- Atal a rheoli heintiau.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a chefnogol yn y ddwy ward.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau addas ac wedi cael yr hyfforddiant priodol i ofalu am grŵp penodol o gleifion y ward.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Prosesau clinigol sefydledig ac effeithiol ar waith i gynnal diogelwch y cleifion
- Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg
- Trefniadau llywodraethu sefydledig ac effeithiol yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Arweinyddiaeth gref ar y ddwy ward.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhannau o'r amgylchedd i helpu i gynnal diogelwch y cleifion
- Cyfathrebu â'r staff a'u cynnwys yn y broses o wneud newidiadau strategol posibl yn yr uned
- Recriwtio i swyddi gwag.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Uned Seiciatrig Heddfan yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Uned Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, dynodwyd Uned Heddfan yn uned derbyniadau rhanbarthol ar gyfer gofal pobl hŷn. Daeth wardiau Clywedog a Dyfrdwy yn Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn hytrach na wardiau Iechyd Meddwl i Oedolion. Roedd yr Uned Gofal Seiciatrig Dwys¹ (PICU) ar gau ar adeg ein harolygiad.

Ar hyn o bryd mae gan Heddfan bedair ward Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn (dynion a menywod):

- Ward Clywedog, uned asesu iechyd meddwl organig² ag 13 o welyau
- Ward Dyfrdwy, uned asesu iechyd meddwl gweithredol³ ag 19 o welyau

¹ Ward Iechyd meddwl cleifion mewnol yw Uned Gofal Seiciatrig Dwys sy'n darparu mwy o gymorth a llai o risg i gleifion, gydag amgylchedd mwy cyfyngol a lefelau staffio uwch na'r hyn a geir ar ward aciwt. Nod Unedau Gofal Seiciatrig Dwys yw gofalu am gleifion na ellir eu rheoli ar wardiau seiciatrig aciwt oherwydd lefel y risg y mae'r claf yn ei pheri i'w hunan neu i eraill. Y nod yw bod y claf yn aros yn yr Uned am gyn lleied o amser â phosibl er mwyn rheoli'r ymddygiadau heriol cynyddol ac yna y caiff ei ddychwelyd i ward aciwt cyn gynted ag y bydd ei gyflwr meddyliol wedi sefydlogi i lefel y gellir ei rheoli'n ddiogel yno.

² Anhwylder meddyliol organig yw camweithrediad o'r ymennydd a all fod yn barhaol neu dros dro. Mae'n disgrifio gweithrediad llai yr ymennydd oherwydd mathau o salwch nad ydynt o natur seiciatrig. Anhwylderau meddyliol organig yw cynnwrf a all gael ei achosi gan anaf neu glefyd sy'n effeithio ar feinwe'r ymennydd yn ogystal ag abnormaleddau cemegol neu hormonaidd. Gall amlygiad i ddeunyddiau gwenwynig, nam niwrolegol, neu newidiadau abnormal sy'n gysylltiedig â heneiddio hefyd achosi'r anhwylderau hyn.

³ Mae salwch meddwl gweithredol yn gymwys i anhwylderau meddyliol heblaw dementia, ac mae'n cynnwys salwch meddwl difrifol megis sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol sy'n effeithio ar bryder.

- Gwanwyn, uned iechyd meddwl organig ag 13 o welyau
- Hydref, ward weithredol ag 16 o welyau.

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar wardiau Gwanwyn a Hydref. Mae pob ward yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd seiciatreg, seicoleg a therapi galwedigaethol.

Cefnogir yr uned gan strwythurau clinigol a gweinyddol y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd ar wardiau Gwanwyn a Hydref wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, roedd yn lân, yn daclus a heb beryglon amlwg i iechyd a diogelwch.

Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth perthnasol i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill ar gael yn ardaloedd derbynfa yr uned ac ar y wardiau unigol. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion iechyd meddwl, a chanllawiau ar ddeddfwriaeth iechyd meddwl a llesiant corfforol megis bwyta'n iach. Roedd gwybodaeth hefyd am sefydliadau a all gefnogi cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Roedd gan Heddfan dîm o therapyddion galwedigaethol a oedd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i'r cleifion yn yr uned. Roedd gan y ddwy ward eu gerddi dynodedig eu hunain, ac roedd y ddwy ohonynt yn cynnig man dymunol yn yr awyr agored. Roedd amgylchedd y ddwy ward wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd y ddwy ward yn lân, yn daclus a heb beryglon amlwg i iechyd a diogelwch.

Gofal ag urddas

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt.

Roedd ardaloedd cymunedol ar y ddwy ward a oedd yn rhoi digon o le i'r cleifion gael amser tawel personol i ffwrdd o'u hystafelloedd. Roedd gan y cleifion eu hystafell wely en-suite eu hunain a oedd yn cynnwys toiled, sinc a chawod.

Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion.

Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi ar y cleifion heb agor y drws ac amharu arnynt o bosibl. Roedd y cleifion yn gallu cau'r paneli arsylwi o'r tu mewn i'w hystafelloedd gwely.

Roedd ystafelloedd ymolchi ar gael ar y ddwy ward i'r cleifion eu defnyddio os oeddent yn dymuno cael bath. Roedd cymhorthion priodol ar gael i roi cymorth ychwanegol i'r cleifion os oedd ei angen arnynt.

Roedd bwrdd cipolwg ar statws cleifion⁴ yn swyddfa'r nyrs, a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn cael gofal ar y ward. Roedd y byrddau wedi'u cynllunio mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid cuddio gwybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y tîm o staff yn gwneud pob ymdrech i amddiffyn cyfrinachedd y cleifion.

O ganlyniad i bandemig Coronafeirws (COVID-19), nid oedd unrhyw ymwelwyr na theulu yn cael ymweld â Heddfan. Roedd ffonau symudol y ward ar gael i'r cleifion gysylltu â'u ffrindiau a'u teuluoedd, ond roedd y cyfleusterau hyn yn wael. Roedd yn gadarnhaol clywed bod y bwrdd iechyd yn bwriadu caniatáu ymwelwyr eto, a'i fod yn rhoi cynlluniau ar waith i gynnal ymweliadau yn ddiogel. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae angen i'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau er mwyn i'r cleifion gael cyfathrebu'n rhithwir ag aelodau o'u teuluoedd.

Roedd cyfle i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth ar y gofal a ddarperir drwy broses Gweithio i Wella'r GIG⁵. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y ward eu bod yn ceisio datrys cwynion yn syth lle bynnag y bo'n bosibl.

⁴ Bwrdd sy'n galluogi'r staff i gyfeirio'n gyflym at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

⁵ Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon am driniaeth yn y GIG, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod technoleg ar gael i'r cleifion ei defnyddio i weld aelodau o'u teuluoedd ac i siarad â nhw.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid adolygu'r cymysgedd sgiliau, ac mae angen buddsoddi mewn datblygiad staff sy'n gweithio gyda grwpiau cleifion newydd er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y cleifion yn yr uned.

Rhaid cynnal adolygiad o'r amgylchedd ar wardiau Clywedog a Dyfrdwy er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn fwy addas ar gyfer gofalu am bobl hŷn.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mynediad i'r uned a wardiau iechyd meddwl yn ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Gallai'r staff gael mynediad i'r wardiau drwy ddefnyddio cardiau adnabod y bwrdd iechyd, ac roedd yr ymwelwyr yn defnyddio'r seinwyr a oedd ar gael wrth ymyl y drws i mewn i'r ward.

Roedd prosesau ar waith i reoli risg a chynnal iechyd a diogelwch ar y ddwy ward. Roedd Gwanwyn ar y llawr gwaelod ac roedd Hydref ar lawr cyntaf yr uned. Roedd liffert ar gael i'r llawr cyntaf a oedd yn sicrhau bod modd i bawb gyrraedd ward Hydref yn hawdd.

Roedd mannau galw am nyrs hefyd o amgylch y ward ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen. Roedd synwryddion yn yr ystafelloedd gwely ar wardiau Gwanwyn a Hydref, a fyddai'n rhybuddio'r staff os oedd claf yn dod allan o'i wely, fel y gallai'r staff roi'r lefel ofynnol o gymorth i'r cleifion. Ar noson gyntaf yr arolygiad gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon i'r larymau a oedd yn seinio.

Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu ar gyfer y ddwy ward. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain.

Ar y cyfan, roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau ar y ddwy ward yn briodol i'r priod grwpiau cleifion. Gwelsom fod braich cadair ar goll ar gadair hanner cylch ar ward Hydref. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y fraich cadair hon ei hatgyweirio neu y rhoddir un newydd yn ei lle er mwyn sicrhau nad yw'n peri risg i ddiogelwch y cleifion.

Ni wnaethom ymweld â ward Clywedog na ward Dyfrdwy yn ystod yr arolygiad hwn, ond dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oedd y wardiau hyn yn addas ar gyfer gofalu am bobl hŷn am nad oeddent wedi cael eu haddasu o wardiau aciwt i oedolion i wardiau gofal i oedolion hŷn. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd gan y staff yn cynnwys y ffaith bod lefelau uwch ar lorïau'r ystafelloedd ymolchi yn peri mwy o risg o gwmpo i gleifion hŷn, ac nad oedd gwelyau na gosodiadau priodol yn yr ystafelloedd gwely ar gyfer gofalu am bobl hŷn. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd modd i'r cleifion gysylltu â'r staff o'u hystafelloedd gwely os oedd angen cymorth arnynt. Tynnwyd sylw'r uwch-reolwyr at hyn yn ystod yr arolygiad, a gwnaethant ein sicrhau bod adolygiad o'r amgylchedd ar y ddwy ward hyn yn mynd rhagddo. Archebwyd mwy o welyau y gellir eu gosod yn uchel neu'n isel er mwyn helpu i gynnal diogelwch y cleifion ag anawsterau sefyll a symud ar gyfer y ddwy ward. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ac y cymerir camau perthnasol yn amserol.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent yn meddwl eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i roi gofal a chymorth i grŵp cleifion newydd â gwahanol risgiau ac anghenion o'i gymharu â grwpiau o gleifion roeddent wedi gweithio gyda nhw o'r blaen. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod hyfforddiant a chymorth ychwanegol yn cael eu datblygu i'r staff, a bod rhaglen cysgodi yn cael ei rhoi ar waith.

Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn elwa ar hyfforddiant ar bynciau megis dulliau atal a chodi a chario wrth ofalu am bobl hŷn, gan nad oedd llawer o brofiad gan y staff o ddelio â math gwahanol o grŵp cleifion lle gallai fod angen defnyddio dulliau gwahanol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn

cael hyfforddiant addas i ddelio â gofal i bobl hŷn er mwyn sicrhau y caiff diogelwch y cleifion a'r staff ei gynnal.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX) a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr uned a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion a chadarnhau bod tystiolaeth bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi. Roedd y rhain yn cynnwys materion a godwyd gan y staff mewn perthynas ag amgylchedd y gofal ar wardiau Clywedog a Dyfrdwy, a phrinder staff. Roedd yn galonogol gweld bod y staff yn teimlo'n hyderus i roi gwybod a chodi'r materion hyn, a oedd yn dangos uniondeb proffesiynol. Dylai'r bwrdd iechyd annog a chefnogi'r diwylliant hwn o roi gwybod er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth gyfrannu at newid, a'u bod yn hyderus i roi gwybod am faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch y staff a'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y fraich cadair yn cael ei hatgyweirio neu fod un newydd yn cael ei rhoi yn ei lle
- Bod adolygiad o'r amgylchedd ar wardiau Clywedog a Dyfrdwy yn cael ei gwblhau i sicrhau diogelwch y cleifion
- Bod gwelyau a gosodiadau priodol ar gael i'r cleifion i'w helpu i fod yn annibynnol a sicrhau eu diogelwch.
- Bod modd i'r cleifion hysbysu'r staff o'u hystafelloedd gwely pan fydd angen cymorth arnynt

- Bod y staff, gan gynnwys staff banc, yn cael hyfforddiant a chymorth i deimlo'n hyderus i ofalu am y grŵp cleifion presennol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn ardaloedd perthnasol ar y ddwy ward, ochr yn ochr â'r arwyddion priodol. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn hefyd.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gyfer y wardiau a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda, a gwelsom fod yr ystafelloedd golchi dillad a'r cypyrddau yn drefnus.

Roedd staff cadw tŷ y bwrdd iechyd yn cwblhau amserlenni glanhau ar y ddwy ward. Dywedodd staff y ward eu bod yn gwneud gwaith glanhau ychwanegol mewn ardaloedd clinigol, a gwelsom y staff yn glanhau'r ardaloedd clinigol ar noson gyntaf ein harolygiad. Gwelsom hefyd fod y staff yn golchi eu dwylo'n aml.

Gwnaethom siarad â'r staff atal a rheoli heintiau i ganfod sut roedd y bwrdd iechyd wedi ymateb i bandemig COVID-19. Gwnaethant ddweud wrthym fod nifer o ddiffygion wedi cael eu nodi yn Uned Heddfan ar ddechrau'r pandemig, a rhoddwyd cynllun ar waith o ganlyniad i hyn i fynd yn ôl i'r hanfodion, lle y gwnaed addasiadau i hylendid dwylo a hylendid yr amgylchedd.

Cafwyd rhywfaint o anawsterau ar y dechrau wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol. Roedd y problemau yn cynnwys nodi defnydd untro neu ddefnydd sesiynol o gyfarpar diogelu personol, ond mae'r problemau hynny wedi'u datrys ers hynny. Roedd archwiliadau mewnol yn dangos bod gwersi wedi cael eu dysgu a gwelliannau wedi cael eu gwneud ar ôl cyfnod anodd ar ddechrau'r pandemig, a gwelsom fod y staff yn dilyn arferion da yn ystod yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar wardiau Gwanwyn a Hydref.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau ac yn glir ynghylch prosesau ynysu. Roedd ardaloedd wedi'u neilltuo ar bob un o'r wardiau lle y gellid ynysu claf a rhoi gofal nyrsio ataliol iddo mewn ardal ddiogel ar y ward pe bai'n dechrau dangos symptomau. Nid oedd yr un o'r ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio ar adeg yr arolygiad.

Roedd y staff atal a rheoli heintiau hefyd yn ymweld â'r wardiau bob dydd. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr uned yn lân yr olwg a heb unrhyw annibendod.

Maeth a hydradu

Gwnaethom edrych ar y cofnodion gofal a chadarnhau bod yr asesiadau o anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi cael eu cwblhau. Roedd cofnodion y cleifion yn nodi anghenion deietegol unigol penodol ar gyfer sicrhau bod y cleifion yn cael digon o faeth a hylifau, ac roedd y ddogfennaeth monitro yr edrychwyd arni wedi'i chwblhau'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth a oedd dan glo ac yn ddiogel. Hefyd, roedd y trolïau meddyginiaeth yn cael eu rhoi'n sownd yn wal yr ystafell clinig, er mwyn atal rhywun heb awdurdod rhag eu symud.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ward ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio. Roedd tymereddau'r oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael eu monitro a'u cofnodi, er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)⁶ a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys yr holl fanylion am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu fesuriadau iechyd corfforol megis mynegai crynswth corfforol, pwysau neu daldra. Roedd y staff hefyd yn cadw cofnodion cyson o unrhyw feddyginiaeth a roddwyd, neu'r rheswm dros beidio â rhoi unrhyw feddyginiaeth.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

⁶ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Roedd y ddwy ward yn darparu gofal i oedolion yn unig. Roedd gan staff y wardiau fynediad at weithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy ei fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos y broses o wneud atgyfeiriad diogelu.

Roedd y bwrdd iechyd yn goruchwyllo diogelu corfforaethol yn Uned Heddfan yn dda. Pan newidiwyd y grŵp cleifion i gynnwys pobl hŷn yn unig, gwnaeth y bwrdd iechyd leoli aelod o'i dîm diogelu corfforaethol ar y safle am ei fod yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a digwyddiadau. Ni fu cynnydd o'r fath, ond mae'r aelod o'r tîm wedi aros yno i roi cyngor ac arweiniad ac i sicrhau ansawdd pob atgyfeiriad.

Mae asesydd budd pennaf hefyd yn gweithio yn Uned Heddfan, sy'n cynnal yr holl asesiadau sy'n ymwneud â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn yr uned.

Caiff yr holl hyfforddiant diogelu ei ddarparu o fewn y bwrdd iechyd, ond roedd rhai o'r niferoedd o ran hyfforddiant yn isel iawn. Ceir mwy o fanylion am hyn yn yr adran nesaf o'r adroddiad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd, gwelsom nifer o adnoddau asesu cleifion wedi'u cwblhau yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a mentrau cenedlaethol, gyda'r nod o helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr enghreifftiau a welsom yn cynnwys rhai mewn perthynas ag atal briwiau pwysu a maeth.

Cadw cofnodion

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion yn bennaf, ac roeddent wedi'u storio yn swyddfa'r nyrs a oedd yn cael ei chadw ar glo. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Roedd y staff yn cadw cofnodion ffeithiol ac roedd y cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn fanwl, a oedd yn golygu eu bod yn rhoi gwybodaeth glir am ofal pob claf.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o gofnodion y cleifion ar gyfer y ddwy ward. Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i gofal.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff yn ymdrechu'n galed i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r cleifion. Roedd y trefniadau ar gyfer asesu iechyd corfforol yn ogystal ag asesiadau iechyd meddwl yn gadarn ac wedi'u cynnal i safon uchel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi mewn un gyfres o gynlluniau gofal yr edrychwyd arni. Mae'n bwysig y caiff anghenion nas diwallwyd eu cofnodi fel y gall y tîm amlddisgyblaethol adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn ystyried opsiynau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu cofnodi yng nghynlluniau gofal y cleifion.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal dau glaf i gyd.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn drefnus iawn ac yn hawdd eu defnyddio. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal, a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Roedd y mwyafrif o gofnodion y cleifion a welsom yn cynnwys asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr drwy gydol cyfnod derbyn y claf, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau.

Roedd cynlluniau gofal COVID-19 i'r cleifion ar waith, a oedd wedi'u teilwra i'r unigolyn, yn fanwl ac wedi'u datblygu'n dda. Roedd y cynlluniau hyn yn dangos bod prosesau ar waith ar y ddwy ward a oedd yn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, o ganlyniad i gynllun y wardiau, roedd cyfleoedd i roi cleifion a oedd yn dangos symptomau mewn ardaloedd ar wahân er mwyn diogelu ac atal cleifion eraill rhag cael eu heintio â COVID-19.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd gan y ward brosesau a threfniadau archwilio effeithiol i gefnogi'r staff wrth gynnal gofal diogel ac effeithiol.

Roedd arweinyddiaeth frwd, gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant a oedd yn darparu gofal pwrpasol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel. Drwy gydol yr arolygiad, roedd y staff yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut mae'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Heddfan yn y dyfodol a'r goblygiadau posibl i'r staff a'u rolau.

Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol, yn ogystal â systemau TG sy'n gallu cefnogi'r broses o gwblhau hyfforddiant.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Roedd rheolwyr y ward yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymrwymedig ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau, ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Roedd uwch-reolwyr y bwrdd iechyd yn ymgysylltu yn agored yn ystod yr arolygiad, ac yn cydnabod bod rhai prosesau wedi cael eu rhoi ar waith ers iddynt gael gwybod am y pryderon a godwyd gydag AGIC. Rhoddodd y bwrdd iechyd fanylion yn agored am y gwelliannau a wnaed. Bob bore, roedd cyfarfod yn cael ei gynnal i adolygu gweithrediad uniongyrchol yr ysbyty ac unrhyw risgiau a oedd yn dod i'r amlwg neu faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Roedd yr adnoddau staff yn cael eu hadolygu bob dydd ac yn cael eu cynllunio ymlaen llaw er mwyn helpu i sicrhau bod digon o aelodau o'r staff yn gweithio sifft i ddiwallu anghenion gofal y cleifion yn yr ysbyty.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roedd yn glir bod y newidiadau a wnaed i'r wardiau mewn ymateb i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar y staff. Cododd y staff y gwnaethom siarad â nhw bryderon ynghylch ansawdd y cyfathrebu yn ystod y cyfnod hwn, a hefyd mewn perthynas â'r cynllun cam 2 sy'n nodi bwriad y bwrdd iechyd i drosglwyddo i fodel gwasanaeth newydd o roi gofal. Dywedodd y staff nad oedd neb wedi ymgynghori â nhw am y cynlluniau arfaethedig. Nododd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod aelodau profiadol o'r staff yn bwriadu gadael y bwrdd iechyd o ganlyniad i'r ansicrwydd a'r diffyg cyfathrebu ynghylch y newidiadau a fyddai'n mynd rhagddynt yn ystod y cam nesaf.

Byddai egluro strategaeth y bwrdd iechyd yn y dyfodol a'r goblygiadau a allai godi i'r staff a'u rolau o fudd i'r staff. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn cyfathrebu'n barhaus â'r staff mewn ffordd dryloyw am y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud.

Rhaid i'r bwrdd iechyd annog y staff i deimlo'n hyderus i rannu syniadau, gan ddangos bod y staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i gyfrannu at unrhyw newidiadau arfaethedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn teimlo bod y bwrdd iechyd yn ymgynghori â nhw a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt, a bod y staff yn teimlo'n hyderus i rannu syniadau a chyfrannu at newid.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn yr uned ar adeg ein harolygiad.

Dywedodd y staff wrthym fod tîm rheoli'r uned yn hawdd mynd atynt ac yn weladwy. Yn ystod cyfweiliadau â'r staff, gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt yr hyder i siarad â'r tîm rheoli os oedd angen iddynt godi materion neu bryderon.

Roedd y staff yn dangos eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac yn ymddangos yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i'r cleifion.

Gwelsom fod nifer o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yr oedd y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi. Lle y bo'n bosibl, roedd y ward yn defnyddio'i staff ei hun a staff rheolaidd o blith staff banc y bwrdd iechyd i lenwi'r bylchau staffio hyn dros dro. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob dydd i drafod lefelau staffio a llif a galw o ran cleifion er mwyn llenwi unrhyw fylchau staffio ar unwaith. Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i sicrhau bod ganddo gapasiti cynaliadwy a digonol i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod y system recriwtio bresennol yn rhoi llawer iawn o bwysau o ran adnoddau ar reolwyr y wardiau, a bod oedi'n digwydd wrth gyflwyno gwaith papur ar gyfer swyddi gwag ar y wardiau o ganlyniad i alwadau croes. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd gwahanol o gefnogi'r staff yn y gwaith gweinyddu wrth recriwtio er mwyn sicrhau na cheir unrhyw oedi diangen wrth recriwtio a phenodi staff newydd.

Roedd gan yr uned bolisi clir i'r staff godi unrhyw bryderon, ac roedd y staff y gwnaethom eu holi yn gwybod am y polisi.

Roedd rhaglen hyfforddiant ar waith er mwyn sicrhau y byddai'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn amserol am yr hyfforddiant roedd angen iddynt ei gwblhau. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr uned a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel ar y cyfan. Wrth edrych ar y cofnodion, gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelu yn isel. Cydnabuwyd bod yr anawsterau a gododd yn sgil y pandemig o ran prinder staff wedi effeithio ar y gallu i ryddhau staff i gael hyfforddiant. Roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd eisoes wedi nodi'r mater o gyfraddau

cwblhau hyfforddiant, a'i fod wrthi'n trefnu'r hyfforddiant hwn. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod systemau TG ychwanegol ar gael i'r staff a all helpu i sicrhau eu bod yn cwblhau eu hyfforddiant.

Roedd systemau da ar waith i gefnogi lles y staff. Roedd seicolegydd clinigol yr uned yn rhoi cymorth parhaus i'r staff. Roedd y seicolegydd wedi cyfarfod â phob aelod o'r staff ac wedi siarad â nhw, ac roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd hefyd wedi ystyried cymorth i'r seicolegydd clinigol ei hun. Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro a hyrwyddo lles a llesiant y staff, a buddsoddi ynddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod swyddi gwag yn cael eu llenwi a mentrau'n cael eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr uned.
- Bod y staff yn cael eu cefnogi i sicrhau na cheir oedi y gellir ei atal wrth recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi.
- Bod cyfraddau hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael eu gwella, a bod systemau TG sy'n gallu helpu'r staff i gwblhau hyfforddiant ar gael.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Uned Seiciatrig Heddfan

Ward/uned(au): Wardiau Gwanwyn a Hydref

Dyddiad arolygu: 7–9 Gorffennaf 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Seiciatrig Heddfan

Ward/uned(au): Wardiau Gwanwyn a Hydref

Dyddiad arolygu: 7–9 Gorffennaf 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod technoleg ar gael i'r cleifion sy'n eu galluogi i weld aelodau o'u teuluoedd ac i siarad â nhw	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r bwrdd iechyd wedi prynu pedwar iPad ychwanegol, sy'n golygu bod chwech iPad ar gael, a ddefnyddir dim ond i sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd yn gallu cysylltu â'i gilydd.	Pennaeth Nyrsio	30 Awst 2020
		Bydd canllawiau 'Sut i'w ddefnyddio' ar gael i'r cleifion, y staff a'r perthnasau i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r	Rheolwr Busnes	30 Awst 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>apiau i fanteisio ar wahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Bydd rheolwyr y wardiau yn monitro'r defnydd o'r ipads fel y gall y cleifion gysylltu ag aelodau o'u teuluoedd. Caiff yr archwiliad ei gwblhau yn wythnosol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cwblhau gwerthusiad o'r defnydd o dechnoleg, a chaiff gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu eu cynnwys yn y gwerthusiad hwn.</p>		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y fraich cadair ei hatgyweirio neu y rhoddir un newydd yn ei lle ar ward Hydref.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rhoddwyd gwybod i'r adran Ystadau am y nam ar y cyfarpar eistedd arbenigol hwn ac rydym yn aros i'r gadair gael ei hatgyweirio.	Rheolwr Gweithrediadau Clinigol	30 Awst 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir adolygiad o'r amgylchedd ar wardiau Clywedog a Dyfrdwy er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad llawn o'r amgylchedd ar bob ward Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn Uned Heddfan, a fydd yn cynnwys: cawodydd, ystafelloedd gwely a hygyrchedd. Bydd y tîm adolygu'r amgylchedd yn cynnwys Ystadau, Rheoli ac Atal Heintiau ac Iechyd a Diogelwch.	Rheolwr Gweithrediadau Clinigol	30 Medi 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd i'r cleifion gysylltu â'r staff o'u hystafelloedd gwely pan fydd angen cymorth arnynt	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae system galw i gleifion ar waith ym mhob ystafell ymolchi ar hyn o bryd, ond nid yw'n addas at y diben. Fodd bynnag, mae angen system galw ddiwifr addas ac ychwanegol i'r cleifion hynny sydd â phroblemau symudedd. Mae'r system hon wedi cael ei harchebu ac rydym yn aros iddi gyrraedd.	Rheolwr Gweithrediadau i Gleifion Mewnol	30 Medi 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwelyau a gosodiadau priodol ar gael i'r cleifion i'w helpu i fod yn annibynnol a sicrhau eu diogelwch.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae gwely priodol ar gael i bob un o'r cleifion, a chaiff unrhyw ofynion o ran gwelyau arbenigol eu codi yn y Cyfarfod Gofal Acíwt i Oedolion Hŷn a gynhelir yn ddyddiol fel y gellir cymryd camau i sicrhau bod y claf mewn gwely addas.	Rheolwr Gweithrediadau Clinigol	30 Awst 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Rydym wrthi'n adolygu gosodiadau arbenigol i sicrhau annibyniaeth a diogelwch mewn perthynas â gwelyau priodol ar hyn o bryd fel rhan o'n hadolygiad o gyfarpar. Caiff gosodiadau arbenigol eu caffael wedyn i'w defnyddio yn yr ystafelloedd gwely.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff, gan gynnwys staff banc, yn cael hyfforddiant a chymorth i deimlo'n hyderus i ofalu am grŵp cleifion gwahanol.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Cynhelir dadansoddiad o anghenion hyfforddiant gloywi i adolygu'r bwch yn y set sgiliau o ran gofalu am grŵp cleifion gwahanol</p> <p>Rhoddir cynllun hyfforddiant ar waith i fynd i'r afael â bylchau o ran Ymyriadau Corfforol Cyfyngol a Chodi a Chario, a fydd yn ymwneud yn benodol â gofalu am bobl hŷn</p> <p>Caiff Uwch-Ymarferydd Nyrsio ei recriwtio i gefnogi'r gofal iechyd corfforol a'r hyfforddiant mewn nyrsio i bobl hŷn</p>	<p>Arweinydd Hyfforddiant a Datblygiad</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31 Hydref 2020</p> <p>30 Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bydd pob rheolwr ward yn cael y cyfle i gysgodi rheolwr ward ym maes Gofal i'r Henoed i wella ei hyder a'i sgiliau</p> <p>Ceir pecyn cymorth ychwanegol gan y Nyrs Datblygu Ymarfer i gefnogi'r wardiau wrth ofalu am grŵp cleifion gwahanol</p> <p>Bydd cynllun yn cael ei roi ar waith i ddefnyddio un o wardiau Uned Heddfan, a oedd yn arfer bod yn ward i oedolion, fel ward i oedolion unwaith eto. Bydd hyn yn golygu mai dim ond un o'r wardiau yn Uned Heddfan fydd yn gofalu am grŵp cleifion gwahanol.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>30 Awst 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>30 Awst 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu cofnodi yng nghynlluniau gofal cleifion, a bod tystiolaeth o hyn.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Mae timau wedi cael eu hatgoffa drwy femo i sicrhau bod anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi yn nogfennaeth y Mesur Iechyd Meddwl.</p> <p>Cynhelir Cyfarfod Gofal Aciwt i Oedolion bob dydd (dydd Llun i ddydd Gwener) lle y</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>pennir camau clir i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion nas diwallwyd a nodwyd.</p> <p>Bydd archwiliad wythnosol yn cynnwys cwestiwn monitro am anghenion nas diwallwyd a nodwyd yn nogfennaeth y Mesur Iechyd Meddwl a chaiff unrhyw ddiffygion eu hunioni ar unwaith.</p>	<p>Clinigol i Gleifion Mewnol</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau Clinigol i Gleifion Mewnol</p>	30 Awst 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn teimlo bod y bwrdd iechyd yn ymgynghori â nhw a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt, a bod y staff yn teimlo'n hyderus i rannu syniadau a chyfrannu at newid.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Digwyddiad ymgysylltu ag uwch-arweinwyr i gasglu eu barn ar y ffordd ymlaen</p> <p>Rhodddwyd blychau awgrymiadau i'r staff ym mhob rhan o Uned Heddfan er mwyn iddynt roi adborth</p>	<p>Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau i Gleifion Mewnol</p>	<p>30 Medi 2020</p> <p>Parhaus</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gosod hysbysfyrddau 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'	Rheolwr Busnes	30 Medi 2020
		Cynnal Arolwg o Ddiwylliant Diogelwch i gasglu barn y staff rheng flaen yn Uned Heddfan	Pennaeth Nyrsio	Medi 2020
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i sicrhau na cheir oedi y gallir ei atal wrth recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi	7.1 Y Gweithlu	Mae Rheolwr Cymorth Busnes pwrpasol wedi cael ei neilltuo i'r broses recriwtio i gefnogi rheolwyr y wardiau a lleihau oedi y gallir ei osgoi wrth recriwtio.	Rheolwr Cymorth Busnes	Cwblhawyd
		Caiff unrhyw oedi wrth recriwtio ei fonitro drwy'r grŵp gweithredol	Pennaeth Gweithrediadau	Parhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.	7.1 Y Gweithlu	Mae pob swydd wag wedi cael ei nodi ac mae pob un wrthi'n mynd drwy'r ymarfer recriwtio	Pennaeth Nyrsio	30 Hydref 2020
		Nodi'n gynnar yr aelodau hynny o'r staff sy'n gadael eu swyddi a rhoi cymorth o ran recriwtio drwy system TRAC	Rheolwr Busnes	30 Medi 2020 Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfraddau hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael eu gwella, a bod systemau TG sy'n gallu cefnogi'r broses o gwblhau hyfforddiant ar gael.	7.1 Y Gweithlu	Rhoddir cynllun hyfforddiant ar waith i fynd i'r afael â meysydd o gydymffurfiaeth isel (cydymffurfiaeth o lai nag 85%) gyda hyfforddiant diogelu ar gyfer y ddwy ward	Rheolwr Gweithrediadau i Gleifion Mewnol	30 Medi 2020
		Cynhelir adolygiad o gyfarpar TG ac argaeledd y cyfarpar i sicrhau bod E-ddysgu ar gael yn haws	Rheolwr Busnes	30 Medi 2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mike Smith

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 18 Awst 2020